



DEWIS CWRS GRADD PRIFYSGOL

Gall penderfynu beth yr hoffech ei astudio yn y Brifysgol fod yn dasg feichus. Byddwch yn astudio'r cwrs am gryn dipyn o amser a gallai effeithio ar yr hyn y byddwch yn gallu ei wneud yn y dyfodol. I'ch helpu i wneud y penderfyniad cywir, dyma rai awgrymiadau ac arweiniad.

Pethau i'w hystyried

- Oes gennych chi **yrfa** mewn golwg? Bydd angen gradd benodol ar rai swyddi. Os nad ydych chi'n gwybod pa yrfa rydych chi ei heisiau eto, mae hynny'n iawn hefyd. Gall cael gradd prifysgol agor drysau i wahanol fathau o swyddi - rhai na fydddech erioed wedi'u hystyried. Byddwch hefyd yn ennill sgiliau trosglwyddadwy y mae pob cyflogwr yn chwilio amdano.
- Efallai eich bod am barhau â rhywbeth rydych chi'n dysgu amdano yn eich **astudiaethau cyfredol** ac am ddewis yn ôl **maes pwnc**. Ond cofiwch gallwch edrych y tu hwnt i'r pynciau traddodiadol sy'n cael eu cynnig yn yr ysgol neu'r coleg, gallwch astudio rhywbeth sy'n gwbl newydd i chi. Ymchwiliwch beth arall sydd ar gael - mae posibiliadau diddiwedd.
- Nid yw cyrsiau prifysgol wastad yn gofyn am gymhwyster na gradd mewn pwnc penodol, ond mae'n werth gwirio'r **gofynion mynediad** er mwyn sicrhau'r hyn ag i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy.
- Beth ydych yn ei **fwynhau**? Gallai hyn fod yn fwy na diddordeb academiaidd, gallai fod yn hobi, ac os oes gennych fwy nag un diddordeb, mae'n bosibl astudio gradd cydanrhydedd.
- Mae gwneud y penderfyniad am ba gwrs prifysgol i'w astudio yn benderfyniad personol, a chithau yn unig sy'n gyfrifol am ei wneud. Ond does dim niwed wrth ofyn am gyngor ac arweiniad gan eich athrawon, cynghorwyr gyrfaoedd, rhieni a gwarcheidwaid. Gall prifysgolion helpu hefyd. Cysylltwch â chynghorwyr Prifysgol Cymru Drindod Dewi Sant ar **gwybodaeth@ydds.ac.uk**

Gwaith ymchwil: Rhestr wirio

Mae'n hynod o bwysig eich bod yn gwneud eich gwaith ymchwil. Ystyriwch y darlun cyfan ag ymchwiliwch i mewn i gynnwys, asesiadau a dulliau addysgu'r cwrs er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus.

Fe ddewch o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch drwy wneud y canlynol:

- Gofyn am brospectws Prifysgol**
- Chwilio am gyrsiau ar wefan UCAS**
- Ymweld â gwefannau prifysgolion**
- Archebu le mewn Diwrnod Agored neu Sesiwn Blasau**
- Sgwrsio â myfyrwyr**

**Gwnewch yr hyn i gyd ar
uwtsd.ac.uk/cy**

Adegau brig

15 Ionawr

Gwanwyn/Haf
(Blwyddyn 12)

Haf/Hydfref

Os nad ydych eisoes wedi gwneud, dechreuwch feddwl am yr hyn yr hoffech astudio a chychwynnwch ar y gwaith ymchwil - mae llawer ohono i'w wneud.

Mae nawr yn amser da i fynychu Diwrnodau Agored a Sesiwnau Blasau ac efallai y byddwch am ddechrau drafftio eich Datganiad Personol.

Dyddiad cau swyddogol UCAS ar gyfer ystyriaeth gyfartal (Rhydychen a Chaergrawnt a chyrtsiau fel meddygaeth, deintyddiaeth, a meddygaeth filfeddygol ar **15 Hydref**). A dylech holi eich ysgol neu goleg beth yw eu dyddiad cau mewnol.